

## CYNGOR CYMUNED LLANWENOG COMMUNITY COUNCIL

Neuadd y Pentref, Drefach am 7.30yh 5ed o Orffennaf 2016

**Yn bresennol / Present:** Cyng Geraint Davies, Cyng Euros Davies, Cyng Gwilym Jenkins, Cyng Helen Howells, Cyng Lewis Davies ,

**Ymddiheiriadau/ Apologise:** Cyng Alun James, Cyng Mary Thomas

### **Materion Personol/Personal Matters:**

Dim materion personol. *No personal matters.*

1.	<b><u>Datgelu Buddianau Personol/Declare Personal Interests</u></b> Datgelodd y Cyng Cyng Gwilym Jenkins fuddiant personol ym mhwynt 6a. <i>Cllr Gwilym Jenkins declared an interest in point 6a.</i>
2.	<b><u>Cadarnhau'r Cofnodion / Agree Minutes</u></b> Cafwyd cofnodion cyfarfod mis Mehefin yn gywir gan y Cyng. Gwilym Jenkins ac fe'i eiliwyd gan y Cyng Lewis Davies. <i>The June minutes were proposed as a true record by Cllr Gwilym Jenkins and seconded by Cllr Lewis Davies.</i>
3.	<b><u>Materion yn Codi – Matters Arising</u></b>
a.	Datblygiad ym mynedfa Cefnrhuddlan Ganol <i>Developments</i> – Ni fydd gwrandawriad yr apel yn digwydd bellach gan fod Mr Hird wedi tynnu'r achos yn ol. Yr unig gais sydd y tu blaen i'r arolygydd nawr yw'r cais i ymestyn yr amser i symud y deunydd o'r safle. <i>The appeal hearing will not happen now as Mr Hird has withdrawn the appeal. The only appeal that will be before the inspector is the appeal to extend the time to remove the items from the site.</i>
b.	Llwybr Cyhoeddus Dolwen <i>Public Footpath</i> – Mae'r cyngor sir wedi ail-agor llwybrau cyhoeddus rhifau 59/28 a 59/27. Er bod gwrthwynebiad anffurfiol wedi ei roi ni all y Cyngor Cymuned gwneud dim ynghylch a'r sefyllfa gan eu bod yn lwybrau cyhoeddus a oedd yn bodoli yn barod. <i>The county council have re-opened public footpaths numbers 59/28 and 59/27. An unofficial complaint was received but the Community Council have no power to do anything about the situation as these are historical footpaths which have been re-opened.</i>
c.	Cysgodfannau Bws Bus Shelters – Derbyniwyd cadarnhad wrth y Cyngor Sir mae'r Cyngor Cymuned sydd yn eu perchen. Penderfynwyd gofyn i'r

	<p>Cyng Geraint Hatcher beth mae trigolion Gorsgoch am wneud gyda'r gysgodfan. Daeth syniad i law bod y gysgodfan yn cael ei ail-osod tu allani'r Neuadd ond ddim yn yr un man, fel ei fod yn gysgod i unrhywun sy'n aros am lift ayyb. <i>The County Council confirmed that the Community Council own the bus shelters. It was decided to ask Cllr Geraint Hatcher what the people of Gorsgoch wish to do with the bus shelter. An idea came to hand that it could be re-positioned outside the hall somewhere and used a shelter for people waiting for a lift etc.</i></p> <p>d. Gwefan y Cyngor Cymuned. Community Council Website. Roedd y Cyngor Cymuned yn berchen ar y 'domain' tan 2018. Ond roeddynt am wybod sut y byddai modd prynu'r enw yn gyfan gwbl. Byddai'r Clerc yn cysylltu gyda Clive. <i>The Community Council own the 'domain' up until 2018, however they want to know how could they buy the name outright. The Clerk will contact Clive.</i></p> <p>e. Cyflymder Drefach Speed Limit – Cafwyd ymateb wrth y Cyngor Sir yn dweud bod y 30mya yn un dros dro a bod y 40mya yno oherwydd mae dyna cyflymder cyfartaledd y darn yma o'r heol. Penderfynwyd aros nes y bydd yr ysgol yn agor gan y bydd y cyflymder drwy'r pentref yn cael ei adolygu yr amser hyn. <i>A response was received from the County Council stating that the 30mph was a temporary one and the 40mph was there as this is the mean speed on this part of the road. It was decided to wait until the school was opened as the speed limits would be reviewed at this time.</i></p> <p>f. Arwydd loriau pen hewl Llanwenog HGV Sign – Derbyniwyd ymateb wrth y Cyngor Sir yn dweud bod yr arwydd sydd yno yn barod wedi ei leoli yn y man priodol. Nid oedd y Cynghorwyr Cymuned yn cytuno a'r farn hon felly gofynwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir i ofyn am gyfarfod ar y safle. <i>A response was received by the County Council stating that the sign was adequately placed. The Community Councillors did not agree with this opinion and asked the Clerk to contact the County Council for a site meeting.</i></p> <p>g. Taith Dros Fywyd / Walk For Life – Ni fydd unrhywun yn dod allan i gasglu'r sic felly penderfynwyd ei bostio. Cafwyd gwahoddiad i ddigwyddiad ar yr 29ain o Hydref yng Nghaerdydd i gyflwyno'r sic yn ffurfiol. Penderfynwyd holi i'r Cyng Geraint Hatcher os oedd am fynychu. <i>Nobody will come out to collect the cheque therefore it was decided to post it. An invitation was received for a gala dinner on the 29<sup>th</sup> October in</i></p>
--	---

	<i>Cardiff to present the cheque. It was decided to ask Cllr Geraint Hatcher if he wants to attend as the organiser.</i>
<b>4.</b>	<b><u>Gohebiaeth – Correspondence</u></b>
a.	<i>Asesiad Chwarae / Play Area Assessment – Roedd dau fan chwarae ym Mhlwyf Llanwenog felly nid oedd y Cyngor Cymuned yn gweld y gallant gyfrannu ymhellach. Llanwenog Parish has two parks therefore the community Council didn't see that they could contribute further.</i>
b.	<i>Adroddiad yr Ombwdsmon / Ombudsman Report – Nodwyd yr adroddiad a darllenwyd achos allan o'r adroddiad a oedd yn berthnasol i'r Cyngor Cymuned. The Report was noted and a case was read out which was relevant to the Community Council.</i>
c.	<i>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Future Generations Act. Derbyniwyd cyflwyniad gan y Cyng Helen Howells am y ddeddf newydd. Mae'n ddogfen y bydd yn rhaid i'r Cyngor Cymuned a'r Cyngor Sir a sefydliadau eraill gymryd i ystyriaeth yn yr hyn y maent yn ei wneud ac yn eu penderfyniadau. Penderfynwyd rhoi linc ar y wefan ac efallai cynnal gweithdy gyda'r gymuned yn y dyfodol. A presentation was received by Cllr Helen Howells regarding the new act. It was decided to put a link on the website. The report will need to be taken into consideration by the Community council and the County council and other organisations when making decisions. It was decided to put a link on the website and possibly hold a workshop with the community in the future.</i>
d.	<i>Asset Based Community Development – Rhoddwyd cyflwyniad gan y Cyng Helen Howells yn sôn am sut y dylsai ein cymunedau fod yn fwy cynaliadwy a meddwl am sut y gall pawb gyd-dynnu yn hytrach na gweithio ar ben ein hunain. A presentation was given by Cllr Helen Howells explaining how our communities should become more sustainable and how we should think about joined-up thinking rather than working in isolation.</i>
<b>5.</b>	<b><u>Taliadau a Ceisiadau am Arian – Payment and requests</u></b>
a.	Treuliau'r Clerc £172.95
b.	Costau Cyfieithu £132.97
	Cytunwyd y taliadau uchod. The above payments were agreed.
<b>6.</b>	<b><u>Cyfrifon – Accounts</u></b>
a.	<i>Adroddiad Cwarterol – Quarterly Report – Cafwyd yr adroddiad cwarterol yn gywir gan y Cyng Gwilym Jenkins ac fe'i eiliwyd gan y Cyng Lewis Davies. The Quarterly Report was proposed as correct by Cllr Gwilym Jenkins and seconded by Cllr Lewis Davies.</i>

<p><b>7.</b></p> <p>a.</p> <p>b.</p>	<p><b><u>Cynllunio – Planning</u></b></p> <p>A160495 – Caedabowen Farm, Highmead, Llanybydder – Change of use of cow shed and cottage to holiday let, and coach house to become main residence - No Objection</p> <p>A160574 – Ty Clyd, Drefach – Erection to dwelling inc. demolition of small w/c – No Objection</p>
<p><b>8.</b></p> <p>a.</p> <p>b.</p> <p>c.</p>	<p><b><u>Unrhyw Fater Arall /Any other business</u></b></p> <p><b>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf/Date and time of next meeting</b>  Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 6ed o Fedi am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach. <i>It was decided to hold the next meeting on the 6<sup>th</sup> of September at 7.30pm at Drefach Village Hall.</i></p> <p>Cyhoeddwyd bod yr Esgob yn dod i’r Eglwys dydd lau am 5pm a bydd lluniaeth i ddilyn. <i>It was announced that the Bishop will visit the Church on Thursday at 5pm with tea to follow.</i></p> <p>Mae Bont Drefach wedi cael niwed unwiath eto, bydd y Clerc yn rhoi gwybod i’r Cyngor Sir. The Drefach Bridge has been hit once again, the Clerk will let the County Council know.</p>

Arwyd  
dwyd:

.....  
.....  
.....

.....  
.....  
.....  
.....

Dyddi  
ad:.....

.....  
.....  
.....  
.....

.....